

ISAAC, DAVID LLOYD (1818 - 1876), clericwr a llenor

Enw: David Lloyd Isaac

Dyddiad geni: 1818

Dyddiad marw: 1876

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: clericwr a llenor

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llanwenog 10 Chwefror 1818. Yr oedd yn aelod gyda Bedyddwyr Aberduar (**D. Jones**, *Hanes Bed. Deheubarth*, 336) ac aeth i athrofa'r Fenni yn 1835 (**Rufus Williams**, *Hanes Athrofeydd y Bedyddwyr*, 35) ac oddi yno i Bontypŵl yn Awst 1836 (*Hanes Athrofeydd y Bedyddwyr* 65 - ei enw ef yw'r cyntaf ar restr myfyrwyr y coleg newydd), lle'r arhosodd am 18 mis. Urddwyd ef yn 1838 yng Nghastell Nedd, a gweithiodd yn dda yno, gan sefydlu achosion yn Aberdylais, Glyn Nedd, a Phontardawe; cychwynnodd Gymdeithas Gymreigyddol yng Nghastell Nedd. Ond daeth ymrafaelion i mewn i'w eglwys, ac amheuid ei ddiwinyddiaeth yntau (**D. R. Phillips**, *Hist. of the Vale of Neath*, 155), felly symudodd i ofalaeth Trosnant, Pontypŵl, yn 1841. Ystormus fu ei yrfa yno (**Bradney**, *Monmouthshire*, I, ii, 455; *Y Bedyddiwr*, Ionawr 1854; *Yr Haul*, 1854, 64), ac yn 1853 troes at Eglwys Loegr, ac aeth i Goleg Llanbedr pont Steffan. Urddwyd ef yn ddiakon, 23 Medi 1855, yn Llandaf (*Haul*, 1855, 363), ac yn offeiriad 21 Medi 1856 (*Haul*, 1856, 323), a thrwyddedwyd ef i guradiaeth Llangatwg Nedd. Yn 1858, cafodd guradiaeth barhaol Llangathen; dengys nodyn ganddo yn rhestr y plwyf (*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, vii, 36) iddo weithio'n egniol yno, gan godi ysgoldy a ficerdy, ailgodi capel adfail, atgyweirio'r eglwys, a chwaneu at nifer y cymunwyr. Yn 1871 (*Haul*, 1871, 278) cafodd ficeriaeth Llangamarch; bu farw yno 31 Ionawr 1876. Ar hyd ei yrfa, bu'n sgrifennwr diwyd (ond di-drefn a difeiriadaeth) ar hanes a hynafiaethau a ieitheg. Yn Fedyddiwr, sgrifennodd lawer i *Seren Gomer*; yn Eglwyswr, hyd yn oed pan yng Ngholeg Llanbedr pont Steffan, cyfrannodd yn helaeth i'r *Haul* - gellir nodi ei ysgrifau ar hynafiaethau (1854-5), ar gyfieithwyr y Beibl (1856), a'r gyfres ' *Llyfrgell Llwyd o Langathen* ' (1858-9); byddai hefyd yn dadlau yn erbyn Ymneilltuaeth. Cyhoeddodd yn 1859 gyfrol, *Siluriana* , ar hanes Gwent a Morgannwg, cynnyrch lloffa llechwith braidd yn llawysgrifau **William Davies** o'r Cringell (gweler **D. R. Phillips** yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 29-33), ac yn 1860 draethawd eisteddfodol, *Hanes Llanbedr a'r Gymmydogaeth*; dywed **Bradney** iddo hefyd gyhoeddi llyfr ar yr Hen-dŷ-gwyn-ar-Daf.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Nodwyd y ffynonellau

gan D. Rhys Phillips (*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, loc. cit.) y cafwyd dyddiadau ei eni a'i farw, ac ymhle y ganed ef

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732862

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). ISAAC, DAVID LLOYD (1818 - 1876), clericwr a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ISAA-LLO-1818>

Cyfrwngwladur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government